

CYNGOR TREF PORTHMADOG



Cyfarfod Rheolaidd y Cyngor Tref Ionawr 14 2025

COFNODION

217.1.25 Presennol :- Cynghorwyr :- Aled Griffith (Cadeirydd); Gwilym Jones; Carol Hayes; Karena Owens; Alwyn Gruffydd; Michael Roberts; Glenda Murray
Marian Roberts (Clerc)

Absennol :- Cynghorwyr :- Trefor Jones; Llywelyn Rhys

218.1.25 Ymddiheuriadau:- Cyng Dr Melfyn Edwards

219.1.25 Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Llawn Rhagfyr 10 2024

Cafwyd yn gywir yn ôl cynnig Cyng Gwilym Jones, Cyng Michael Roberts yn eilio.

220.1.25 Adroddiad y Clerc

Storm Darragh – llechi brig toiledau Borth y Gest wedi dod i lawr yn y storm – y Clerc wedi trefnu i'w hatgyweirio.

Baneri Draig Goch – cyflenwad o 100 baner wedi cyrraedd yn barod i'w gosod erbyn Mawrth 1af .

Harbwr 200 – y Clerc wedi gyrru rhag-rybudd i'r Wylan am gyfarfod cyhoeddus ym mis Chwefror.

Premier Inn – clywyd nad oedd rheolwr Premier Inn Porthmadog yn ymwybodol o unrhyw gynllun i osod byrddau gwybodaeth o flaen yr adeilad. Premier Inn yn ganolog sydd yn trefnu hyn.

Golff Giamocs – y Clerc wedi mynychu cyfarfod Teams gyda Tony Jones (Wavehill); Steve Edwards (YGC); Hannah Joyce C.G. i asesu llwyddiant y Golff Giamocs. Clywyd iddo fod yn broffidiol ac efallai am ystyried ei agor am gyfnod hirach eleni.

Bwrdd gwybodaeth Madocks - Diolchwyd i Cyng Carol Hayes am ei gwaith yn coladu gwybodaeth am Madocks i'w rannu â Ffion Gwyn. Am drafod ymhellach yng nghyfarfod y pwyllgor Cyllid ac Eiddo ar 28.1.25.

Arolwg Un Llais Cymru – rhanwyd hwn yn gynharach heddiw. Mae'r Clerc eisoes wedi llenwi'r holiadur.

Ychwanegodd y Cadeirydd ei longyfarchiadau i **Ysgol y Gorlan** am ennill cystadleuaeth Carol yr Ŵyl S4C gyda charol wedi ei chyfansoddi gan Rhys ac Anest Glyn. Diolchodd hefyd i Damian Williams am gynnwys Porthmadog yn y **Daith Tractors** ar 15.12.24. Llwyddodd y daith i godi bron i £6,000 tuag at gronfa DPJ a'r Ambiwlans Awyr. Penderfynwyd gyrru gair i'w llongyfarch i gyd.

221.1.25 Datgan diddordeb.

Dim datganiad o ddiddordeb.

222.1.25 CEISIADAU CYNLLUNIO

(a) Rhif Cais / Application No.: C24/1062/44/DT (ebostio 16.12.24)

Lleoliad / Location: Pennant, 10 Stryd Ralph, Borth Y Gest, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9UA

Bwriad / Proposal: Adnewyddu annedd canol teras 4 ystafell wely i greu estyniad deulawr cefn a throsiad llofft gan greu cegin cynllun agored ac ystafell wely llawr daear, ystafell fyw llawr cyntaf gyda balconi, a prif ystafell wely gyda chwprdd dillad cerdded i mewn en-suite a balconi wrth drawsnewid y llofft.

Penderfynwyd :- gwrthwynebu'r cais oherwydd y rhesymau canlynol :-

- Mae'n or-ddatblygiad
- Mae'n gosod cynsail i geisiadau cyffelyb
- Mae'n newid cymeriad y tŷ a'r ardal
- Byddai'n bosibl ei weld o ben arall y bae
- Mae'n edrych allan dros eiddo cyfagos
- Byddai'n achosi llygredd sŵn
- Byddai ceir ychwanegol y sawl fyddai'n aros yno yn achosi trafferthion parcio i drigolion lleol

MATERION CYFANSODDIADOL A STAFF

223.1.25 Ethol Is-Gadeirydd yn dilyn ymddiswyddiad Cyng John Gwynedd Roberts

Penderfynwyd :- gofyn i'r Cyng Dr Melfyn Edwards ymgymryd â'r swydd yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.

224.1.25 Penderfynu ar strategaeth i ddenu cynghorwyr newydd

Cytunwyd bod y sefyllfa yn ddifrifol gan mai ond 10 allan o 16 sedd sydd wedi eu llenwi.

225.1.25 Penderfynu ar ddyddiad i gynnal cyfarfod cyhoeddus i ddechrau trefnu dathlu dauganmlwyddiant yr harbwr.

Clywyd bod amryw o achosion i ddathlu yn 2025 :- Trên Stêm yn 200 oed; Harbwr yn 200 oed; Portmeirion yn 100 oed a Rheilffordd Ffestiniog yn 70 oed. Mae rhag-rybudd o gyfarfod cyhoeddus eisoes wedi ei yrru i'w gyhoeddi yn Yr Wylan mis Ionawr a bwriedir rhoi dyddiad, lleoliad ac amser yn rhifyn mis Chwefror. Clustnodwyd nos Fercher, Mawrth 5ed fel dyddiad posibl.

Penderfynwyd :- y Clerc i ymgynghori â'r Ganolfan i drefnu dyddiad pendant.

MATERION I'W DWYN GERBRON :-

Yn absenoldeb Is-Gadeirydd cytunodd Cyng Alwyn Gruffydd i gadeirio'r cyfarfod tra bu trafodaeth ar gynnig y Cadeirydd.

226.1.25 Cyng Aled Griffith :- cynnig gofyn i Gyngor Gwynedd i osod bollards o flaen siop Spar / Greggs i atal pobl rhag parcio ar y palmant.

Penderfynwyd :- gweithredu ar y cynnig gan ymestyn yr ardal o siop Paganuzzi i Gapel Salem, Cyng Michael Roberts yn eilio.

Dychwelodd y Cadeirydd i'r Gadair i lywyddu gweddill y cyfarfod.

227.1.25 Materion i'w dwyn gerbron y Cadeirydd unai er gwybodaeth neu i'w rhoi ar y Rhaglen ar gyfer y cyfarfod nesaf. Dyddiad cau Chwefror 11 2025 = Chwefror 1 2025, (Rheolau Sefydlog 9 (b) " o leiaf deg diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor".)

- **Cyng Alwyn Gruffydd :-** cynnig adolygu'r Polisi Iaith.

228.1.25 Gohebiaeth : Rhestr Aros am Ateb (copi ynghlwm).

Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'r Clerc i ddileu ac ail yrru gohebiaeth lle bo'n addas.

GOHEBIAETH :

229.1.25	ADRAN AMGYLCHEDD C.G.	Diweddariad ar rybudd gorfodaeth Hafodydd, Borth y Gest Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu at Reolwr Gwaith Achos Penderfyniadau Cynllunio ac
-----------------	------------------------------	--

		Amgylchedd Cymru , Llywodraeth Cymru i gefnogi safiad Cyngor Gwynedd yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd.
230.1.25	MABON AP GWYNFOR	Ymateb Trafnidiaeth Cymru T2 Tremadog Penderfynwyd :- trafod gohebiaeth mater 236.1.25 ar y cyd; derbyn y wybodaeth; a chanmol ymateb Mabon ap Gwynfor.
231.1.25	PATRICIA L. WARD	Ymateb i 168.11.24 dathlu 200 yr harbwr Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a'i gwahodd i'r cyfarfod cyhoeddus gan nodi y bydd offer cyfieithu ar gael yn y cyfarfod.
232.1.25	CYFEILLION BORTH Y GEST	Diolch am y diffibriliwr. Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth
233.1.25	ALED DAVIES C.G.	Ymateb i 214.12.24 gofal dydd i'r henoed Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth a diolch iddo am gynnig dod i gyfarfod â'r Cyngor Tref a'i wahodd i gyfarfod llawn mis Mawrth.
234.1.25	LINDSEY ELLIS C.G. DAFYDD EINION JONES C.G.	Ymateb i 196.12.24 swydd Cydlynnydd Llesiant Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ymateb i gadarnhau y bydd y Clerc a'r Cyng Glenda Murray yn cynrychioli'r Cyngor Tref ar y grŵp llywio.
235.1.25	JEREMY DAVIES	Cais Cynllunio 10 Ralph Street, Borth y Gest Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth; diolch i Mr Davies am ei sylwadau ac adrodd iddo bod y Cyngor Tref wedi gwrthwynebu'r Cais Cynllunio.
236.1.25	MABON AP GWYNFOR KEN SKATES	T2 Tremadog Gweler sylwadau cofnod 230.1.25.
237.1.25	MARIAN ROBERTS	Ymdeoliad Swydd ddisgrifiad Clerc 2025 Gadawodd y Clerc yr ystafell tra bu trafodaeth a dychwelodd i gofnodi'r penderfyniad i dderbyn yr ymddiswyddiad; i gyfethol Cyng Karena Owens ar y Pwyllgor Staffio ; i gynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Staffio ar ôl y Pwyllgor Cyllid ac Eiddo ar 28.1.25
238.1.25	BETHAN PRICE	Diweddariad Grŵp Cleifion Hwb Iechyd Eifionydd Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth ac ysgrifennu'n ôl i holi :- <ul style="list-style-type: none"> • Pwy sydd wedi dweud wrthi mai tir Model Dairy sydd wedi ei glustnodi ar gyfer meddygfa newydd? • Pwy sydd wedi rhoi caniatâd i ddefnyddio'r safle yma? • Beth ddigwyddodd i'r syniad o ddefnyddio safle'r Coliseum ar gyfer meddygfa newydd? yn ôl cynnig Cyng Carol Hayes, Cyng Alwyn Gruffydd yn eilio.
239.1.24	R.J. ELECTRICS	Ymateb i gŵyn am y goleuadau Nadolig Penderfynwyd :- derbyn y wybodaeth; ymateb i'r ebost gan nodi ein bod yn disgwyl am adroddiad ar y goleuadau Nadolig ac i nodi bydd y Cyngor Tref yn ystyried eu anghenion ar gyfer goleuadau Nadolig i'r dyfodol a rhoi'r mater ar raglen Pwyllgor Cyllid ac Eiddo 28.1.25.

240.1.25 MATERION ARIANNOL :

Derbyniadau :

H.S.B.C.	Llog Banc Tachwedd Rhagfyr 2024	£54.30
----------	---------------------------------	--------

- Penderfynwyd atal taliad rhif 5 R.J.Electrics nes i ni dderbyn adroddiad ar y goleuadau diffygiol.
- Awdurdodwyd y taliadau canlynol yn ôl cynnig Cyng Alwyn Gruffydd, Cyng Glenda Murray yn eilio:-

1	Clerc	Llinell ffôn a Wê Rhagfyr 2024	£ 66.88
2	Clerc	Cyflog Clerc Rhagfyr 2024	£1,597.44
3	Cyllid a Thollau ei Fawrhydi	Treth Incwm cyflog Clerc Rhagfyr 2024	£ 399.36
4	Un Llais Cymru	Cwrs Y Cynghorydd Modiwl 2 Cyng Glenda Murray 9.12.24	£40.00
5	R.J.Electrics	Trwsio goleuadau wedi storm Darragh	£415.80
6	Y GANOLFAN	12 x sesiwn Clwb Ieuenctid 12.9.24 i 19.12.24	£450.00
7	The Flag Shop	100 x baner Draig Goch nylon	£1,395.00
8	YR WYLAN	Hysbyseb Ceisiadau Ariannol a hysbyseb tendr Torri Llwybrau Rhagfyr 2024	£40.00

(Mae copi o bob sic ar gael i'w archwilio ar gyfer awdit/rheolau ariannol)

Daeth y cyfarfod i ben am 20.45

Marian Roberts

(Clerc)

17.1.25